# Archifdy Sir Gâr
# **Polisi Gwirfoddolwyr**
# 2022 - 2026

**Datganiad o Fwriad**
Ein hamcan yw nodi, casglu a chadw dogfennau hanesyddol sy'n ymwneud a Sir Gâr a sicrhau eu bod ar gael i unrhyw un sy'n dymuno eu defnyddio.

Rydym hefyd yn ymrwymedig i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith ac i ddangos i bob aelod o'r gymuned y gwahanol ffyrdd o ddefnyddio archifau a chofnodion.

**Datganiad Polisi**
Mae Archifau Sir Gaerfyrddin yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y gall gwirfoddolwyr ei wneud i'w waith. Gall gwirfoddolwyr ddod â sgiliau a phrofiad amhrisiadwy i brosiect, gan ennill profiad ar yr un pryd sy'n gwella a datblygu eu potensial a'r cyfleoedd fydd ar gael iddynt i'r dyfodol.

Dyluniwyd y polisi hwn i roi sylw i leoliadau gwirfoddol o bob math, gan gynnwys myfyrwyr profiad gwaith o ysgolion a cholegau, hyfforddeion gwasanaethau gwybodaeth a gwirfoddolwyr eraill.

Ei ddiben yw sicrhau bod Archifau Sir Gaerfyrddin yn dilyn arferion da pob tro y mae'n delio â'i wirfoddolwyr. Yn benodol, mae'r polisi hwn yn cydnabod yn ffurfiol bwysigrwydd gwirfoddolwyr ac yn sicrhau y gellir cwrdd â'r amcanion a ganlyn

- Bod gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau priodol a'u bod wedi cael eu dewis trwy ddilyn gweithdrefn addas sy'n cynnwys gofyn am eirda a hefyd, pan fo'n briodol, wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Bod gwirfoddolwyr yn teimlo bod croeso iddynt a gwerthfawrogiad o'u gwaith a bod ein gwasanaeth yn trefnu sesiwn gynefino berthnasol ar eu cyfer
- Bod gwirfoddolwyr yn medru gwneud cymaint o gyfraniad â phosib trwy i'r gwasanaeth roi hyfforddiant a chefnogaeth briodol iddynt

**Diffiniad**
Gwirfoddolwyr ydi pobl sy'n gwneud gwaith gwirfoddol ar ran Archifau Sir Gaerfyrddin o ddewis, heb unrhyw gontract cyflogaeth a heb ddisgwyl cydnabyddiaeth ariannol ac sy'n cyfrannu eu hamser, eu hynni a'u sgiliau er budd y Gymuned. Mae Archifau Sir Gaerfyrddin yn cydnabod nad yw gwirfoddolwyr yn cymryd lle'r gweithwyr cyflogedig sydd ganddo a bydd yn trefnu ei waith ar gyfer gwirfoddolwyr mewn ffordd effeithiol a sensitif er budd pawb.

**Cyfle cyfartal**
Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn trin pawb gyda'r un parch, sylw ac ystyriaeth ac mae'n cydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wneir i Sir Gaerfyrddin gan bob unigolyn. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddarparu gwasanaethau ac fel cyflogwr mawr, ac i ddileu gwahaniaethu annheg ac anghyfreithlon yn ein holl bolisïau, gweithdrefnau ac arferion. Bydd disgwyl i wirfoddolwyr dderbyn a dilyn yr egwyddorion hyn.

**Dewis a Recriwtio**
Nod Archifau Sir Gaerfyrddin yw recriwtio gwirfoddolwyr o bob rhan o'r gymuned a chanddynt ystod eang o sgiliau, profiadau bywyd a gwybodaeth.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu recriwtio drwy gynnwys hysbysebion mewn taflenni, cylchlythyrau, ac ar y wefan gorfforaethol. Gellir recriwtio hefyd trwy gysylltu'n anffurfiol gyda'r gymuned defnyddwyr.

Bydd darpar wirfoddolwyr yn cael eu cyfweld i drafod eu sgiliau, eu rolau a'u disgwyliadau.

**Iechyd a Diogelwch**
Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch ei wirfoddolwyr. Darperir sesiwn gynefino lawn ar faterion iechyd a diogelwch i'r holl wirfoddolwyr ar ddechrau eu lleoliad. Dylai gwirfoddolwyr ddilyn polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Cyngor bob amser. Bydd Archifau Sir Gaerfyrddinyn rhoi hyfforddiant ac atborth digonol i gefnogi ein polisi iechyd a diogelwch – arddangosir copi o'r polisi ar y cabinet wrth ymyl gorsafoedd gwaith y gwirfoddolwyr.

Darperir dillad neu offer arbenigol lle bo angen.

Darperir hyfforddiant codi a chario pan fo angen, ond, ar y cyfan, ni fydd gwirfoddolwyr yn codi pethau trwm nac yn gweithio o uchder. Rhaid i wirfoddolwyr roi gwybod ar unwaith i aelod o staff am bob damwain.

**Goruchwylio a Chefnogi**
Mae Archifau Sir Gaerfyrddinwedi ymrwymo i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac effeithiolrwydd ei wirfoddolwyr. Cyflawnir hyn drwy ddarparu:

- hyfforddiant a datblygiad priodol
- gwaith ystyrlon sy'n cwrdd â blaenoriaethau'r gwasanaeth
- goruchwyliaeth effeithiol
- cydnabod gwaith a gwblhawyd
- targedau clir, blaenoriaethau a safonau priodol ar gyfer y gwaith a bennwyd

Bydd gan wirfoddolwyr hawl i dderbyn geirda gan y Gwasanaeth Archifau. Mae hyn yn amodol ar fod gwirfoddolwyr wedi gwneud o leiaf 30 awr o waith gwirfoddol o safon foddhaol tra'n gweithio'n uniongyrchol ar ran y gwasanaeth.

**Yswiriant**
Bydd gwirfoddolwyr wedi eu hindemnio yn erbyn hawliadau trydydd parti o dan Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus y Cyngor wrth gyflawni eu dyletswyddau.

**Cyfrinachedd**
Bydd yn ofynnol i wirfoddolwyr lofnodi cytundeb cyfrinachedd.

**Manylion troseddau**
Bydd yn ofynnol i'r holl wirfoddolwyr ddatgelu unrhyw euogfarnau troseddol (gan gynnwys euogfarnau sydd wedi darfod) wrth lenwi ffurflen gais.

**Gweithdrefn Gwyno**
Dylai gwirfoddolwyr godi unrhyw bryderon neu broblemau gyda'u goruchwyliwr uniongyrchol.

**Treuliau**
Cynigir ad-dalu costau teithio rhesymol gwirfoddolwyr o'u cartref i'r man gwaith. Y lwfans a delir i'r rheini sy'n defnyddio eu cludiant eu hunain yw 18c y filltir. Rhaid i'r holl dreuliau fod wedi eu cytuno ymlaen llaw gyda'r goruchwyliwr.

**Adolygu**
Ysgrifennwyd y polisi hwn ym mis Rhagfyr 2022. Bydd yn cael ei adolygu yn 2026, neu'n gynharach os bydd angen gwneud hynny.